



Polisi  
Diogelwch ar y we  
Ysgol Gymraeg Cwmbrân

## Polisi Diogelwch ar y we Ysgol Gymraeg Cwmbrân:

(Addaswyd ym mis Medi 2023)

*Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â pholisiau eraill yr ysgol megis polisi TGCh, polisi gwrth fwlio, polisi defnydd derbyniol o TGCh, polisi cyfryngau cymdeithasol a'n polisi amddiffyn plant.*

### **Cyflwyniad:**

Prif bwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod holl staff, disgyblion, rhieni / gwarchodwyr a rhan ddeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o'r hyn sy'n dderbyniol wrth ddefnyddio'r we o fewn ein hysgol a thu hwnt iddi. Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu bellach yn rhan allweddol o'r gwersi yn ein hysgol a, chydâ'r cynnydd hwn, mae'n bwysig ein bod yn derbyn cyfrifoldeb am ein defnydd o'r we. Gyda chynnydd mewn dysgu ar lein erbyn hyn a'r dull dysgu cyfunol, mae'n holl bwysig ein bod ni yn addysgu ein disgyblion am ddefnydd derbyniol o TGCh yn yr ysgol a thu hwnt iddi. Mae defnydd cynyddol y disgyblion o lwyfannau dysgu megis Hwb, Google for Education a Seesaw yn golygu bod y disgyblion yn fwy agored i wahanol raglenni ac felly, maen nhw angen mwy o gymorth ar sut i ymddwyn yn dderbyniol ar y we a sut i gadw ein hunain yn saff.

Y Tîm Technoleg a Gwyddoniaeth sy'n gyfrifol am unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad i gamddefnydd o'r we neu unrhyw broblemau cyffredinol sy'n codi yn sgil y dechnoleg ddiweddaraf. Gan fod twf cyflym yn digwydd o fewn technoleg a chan fod gennym ni fel ysgol gasgliad helaeth o'r dechnoleg ddiweddaraf, rhaid sicrhau ein bod yn monitro'r polisi hwn yn gyson, i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau a datblygiadau sy'n digwydd yn y maes.

### **Dysgu ac addysgu:**

#### Pwysigrwydd y we:

Mae'r we bellach yn cael ei defnyddio yn drawsgwricwlaidd mewn amrywiaeth o wersi er mwyn annog annibyniaeth, codi safonau ac, yn bennaf, ar gyfer ymchwilio mewn i bynciau gwahanol. Mae'r we bellach yn ffynhonnell o wybodaeth ganolog drwy'r ysgol gyfan ac anogwn y plant i'w defnyddio'n gyson er mwyn cyfoethogi eu haddysg a meithrin annibyniaeth.

Defnyddir llwyfannau dysgu rhyngweithiol HWB a Google for Education yn yr ysgol erbyn hyn ac felly, atgoffir disgyblion i ddefnyddio'r llwyfan mewn modd synhwyrol ac addas ac fe'u hatgoffir o'r rheolau yn gyson. Rhaid sicrhau ein bod ni'n rhoi gwersi ar ddiogelwch ar y we yn gyson, er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r

wybodaeth ddiweddaraf. Defnyddir Seesaw gan blant y Cyfnod Sylfaen yn annibynnol i uwchlwytho tystiolaeth o dasgau eu hunain yn y dosbarth.

### Defnydd o'r we:

Yn flynyddol, gofynnwn am ganiatâd rhieni/gwarchodwyr er mwyn i'r disgyblion ddefnyddio'r we a HWB/Google for Education yn yr ysgol. Danfonir holiadur allan yn flynyddol er mwyn i rieni / gwarchodwyr roi eu caniatâd i'r disgyblion ddefnyddio'r we am y flwyddyn. Rhaid i bob athro/athrawes gadw cofnod o'r disgyblion sydd wedi derbyn caniatâd i ddefnyddio'r we a'r disgyblion hynny yn unig fydd â mynediad i'r we yn ystod gwersi amrywiol.

### **Defnydd derbyniol ac annerbyniol o'r we:**

Mae'n hanfodol ein bod ni fel staff yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cyfrifoldeb dros eu defnydd o'r we ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud y rhieni/gwarchodwyr a'r disgyblion yn ymwybodol o'r peryglon sydd ar y we.

Mae'r rheolau diogelwch ar y we wedi'u harddangos yn glir lle ceir mynediad i gyfrifiadur/gliniadur, a chânt eu trafod gyda'r disgyblion ar ddechrau pob blwyddyn. Hysbysir y disgyblion y bydd y defnydd o'r rhyngwyd yn cael ei fonitro o fewn yr ysgol.

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn arwyddo cytundeb ar gyfer eu defnydd o'r we yn yr ysgol. Ceir cytundeb sydd wedi'i symleiddio i blant y Cyfnod Sylfaen hefyd, wedi'i addurno â lluniau i'r rheiny sydd methu deall yr ysgrifen. Cedwir copi o'r cytundebau hyn yn y dosbarthiadau gwahanol. (Gwelir y Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh). Mae pob aelod o staff yn arwyddo cytundeb Defnydd Derbyniol o TGCh ar ddechrau'r flwyddyn.

### **Rheoli mynediad i'r Rhyngwyd:**

Ein Sir ni sy'n gyfrifol am hidlo'r gwefannau mae'r disgyblion â mynediad iddynt. Fe'u rhwystrir rhag ddefnyddio gwefannau megis hotmail, Tik tok a youtube ayyb yn yr ysgol ac mae sawl gwefan anaddas arall wedi ei rhwystro. Fel ysgol, teimlwn yn hyderus bod y system hidlo hon yn gweithio. Ar adegau, gellir cael mynediad i rai delweddau anaddas ac anogwn y disgyblion i ddweud wrth aelod o staff yn syth mewn achosion fel hyn.

Bydd yr aelod o staff yn cofnodi'r digwyddiad yn y llyfr a gedwir yn ganolog yn yr ystafell athrawon a bydd y Tîm Technoleg a Gwyddoniaeth yn monitro pob digwyddiad ac yn adrodd yn ôl i'r Sir neu unrhyw gorffolaeth arall, yn ôl yr angen. Os oes unrhyw gwyn ynghylch amddiffyn plant, rhaid gweithredu'n unol â pholisi amddiffyn plant yr ysgol. (Gwelir y Polisi Amddiffyn Plant) Mae'r Sir hefyd yn gyfrifol am reoli systemau

amddiffyn yn erbyn firysau ac fe'u diweddarir yn gyson. Rydym yn trafod unrhyw bryderon diogelwch ar y we yn y cyfarfodydd staff yn wythnosol. (Gweler y cofnodion). Rydym yn defnyddio 'guided access' ar yr iPads i gloi disgyblion mewn i apiau er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod bod beth mae nhw'n gweld yn addas.

### **Gwefannau allanol:**

Os ydy cwmni allanol am gael lluniau o'r disgyblion ar wefan arall, rhaid iddynt gael caniatâd gan riant neu warchodwr yn gyntaf. Mae hwn yn cael ei roi gan rieni ar ddechrau'r flwyddyn.

### **E-bost:**

Rhoddir caniatâd i'r disgyblion ddefnyddio e-bost trwy gyfrif Hwb yn unig. Anogir y disgyblion i ddweud wrth athro / athrawes os ydynt yn derbyn unrhyw e-byst anaddas ac fe'u hanogir i beidio danfon unrhyw wybodaeth bersonol drwy e-bost. (Gweler Cytundeb Cyfnod Allweddol 2 o fewn y Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh) Addysgir y disgyblion am e-byst cadwyn a sgam ac fe'u hanogir i'w dileu yn syth, a pheidio eu danfon ymlaen.

### **Ffonau symudol:**

Nid oes hawl gan ddisgybl i ddod â ffôn symudol i'r ysgol ac nid oes gan staff ganiatâd i ddefnyddio eu ffonau symudol yn ystod amser gwersi. Os ydy disgybl yn dod â ffôn symudol i'r ysgol, rhaid i'r disgybl gael caniatâd aelod o staff a rheswm digonol ar gyfer dod â'r ffôn i'r ysgol. Rhoddir hawl i aelodau staff dynnu llun o ddisgybl ar eu ffôn symudol ond *rhaid* iddynt ddileu'r llun yn syth ar ôl ei ddefnyddio at ddibenion Twitter neu'r wefan ayyb. Fel y nodwyd uchod, os oes ymwelwyr yn dod i'r ysgol ac eisiau tynnu lluniau, rhaid iddynt ofyn am ganiatâd yn gyntaf.

### **Cod Ymddygiad Staff:**

Ceir cod ymddygiad i staff yn ogystal a rhaid i bob aelod o staff arwyddo ei fod yn mynd i ddilyn yr argymhellion a restrir yn y cod ymddygiad. (Gwelir Cytundeb Staff yn y Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh) Gwneir yn amlwg nad yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am sefyllfa sy'n codi o ganlyniad i aelod o staff ddim yn dilyn yr argymhellion hyn. Cedwir copi o'r cytundebau hyn gan y Tîm Technoleg a Gwyddoniaeth.

### **Sicrhau cefnogaeth rhieni a gwarchodwyr:**

Tynnir sylw rhieni / gwarchodwyr at bolisi diogelwch ar y we yr ysgol ar ddechrau pob blwyddyn. Trwy'r polisi hwn, ein bwriad yma yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân yw darparu ffynhonnell werthfawr i'n disgyblion sydd yn saff ac yn hawdd i'w defnyddio. Trwy'r polisi hwn ac, yn unol â'n polisi Defnydd Derbyniol o TGCh, gobeithiwn yn fawr bod ein disgwyliadau gan ddisgyblion, staff, rhieni / gwarchodwyr a llywodraethwyr yn hollol amlwg i bawb.